

# Pasg Hapus



Annwyl Blant Bryn y Môr,

Mae amser y Pasg a'r gwanwyn yn amser o ddathlu dechrau newydd. Yn ffodus, mae'r haul yn tywynni  ac mae'r byw yn dechrau adfywiol ar ôl gaeaf hir a gwlyb. Dyma paham mae'r wy  yn cael ei ddefnyddio fel symbol o fywyd a dechrau newydd. Mae'r cywion bach melyn  yn deor o'r wyau, mae'r ŵyn  yn prancio ar y caeau. Mae'r dail yn blaguro ar y coed. 

Mae'r cyfnod yma yn amser anodd iawn ac rwy'n siŵr eich bod yn gweld eisiau eich ffrindiau, eich teuluoedd ac rwy'n siŵr eich bod yn gweld eisiau dod i'r ysgol.

Ond, er mwyn sicrhau ein bod i gyd yn cadw'n iach rhaid i ni barhau i ddilyn canllawiau a negeseuon pwysig y llywodraeth a'r GIG a chydweithio. Trwy wneud hyn byddwn yn gallu dychwelyd i'n bywyd arferol yn llawer mwy cyflym.

Er bod hi'n anodd, rhaid cofio, **mi fydd y cyfnod yma yn dod i ben** ac mi fydd bywyd yn dychwelyd i fel ag yr oedd. Rhaid cadw'r diwedd mewn golwg a hyd nes bod hynny yn digwydd, rhaid cadw'n brysur ac yn iach. Bydd eich athrawon yn rhoi tasgau i chi ddewis gwneud ar ôl gwylie y Pasg. Gwnewch beth fedrwch ond dydw i ddim am i chi boeni os nad ydych yn gallu cwblhau bob tasg.

Rwy'n gobeithio y gwnewch chi fwynau eich gwylie Pasg a chofiwch, os ydych yn poeni am unrhyw beth, **rydym dal yno i chi.**




Cofion Cynnes

Mrs E Wakeham

